

---

# Clwb Pêldroed PORTHMADOG Football Club Limited

Y Traeth Stadium, Porthmadog, Gwynedd LL49 9PP

Tel/Fax 01766 514687

---



Mae'r Clwb am benodi swyddog datblygu busnes llawn amser, yn wreiddiol dros gyfnod o 12 mis ar gyflog cychwynol fydd yn ddibynnol ar brofiad a sgiliau, ond os bydd y deilydd yn llwyddo i gynhyrchu digon o incwm o weithgareddau newydd fe all ddatblygu yn swydd barhaol. Rhagwelir mai'r isafswm cyflog fydd £15,000 gyda phosibiliadau o gomisiwn ychwanegol os yn llwyddiannus. Lluniwyd cynllun busnes penodol ar gyfer datblygu rhai syniadau uchelgeisiol a disgwylir i'r swyddog helpu gyda'r dasg hon ond gyda chefnogaeth ymgynghorydd busnes y cwmni. Serch hynny mae cyfleon wedi eu dynodi hefyd a ellid eu gweithredu dros y tymor byr a byddai yn cynnyddu incwm y busnes yn syth bin. 'Rydym o'r farn bod y busnes yn tan gyflawni oherwydd y ffaith nad oes ganddo berson penodol llawn amser a all gymeryd yr awenau ar gyfer datblygu y cyfryw. Dyma rhai ohonynt

- Gosodwyd paneli solar ar do y clwb cymdeithasol yn ddiweddar fydd yn denu incwm newydd, oddeutu £5,000 y flwyddyn y naill trwy ennill ffioedd oddiwrth y Grid Cenedlaethol a'r llall trwy arbed costau ynni presennol. Byddem yn edrych i ddatblygu syniadau eraill fel hyn a bydd y swyddog datblygu busnes yn gyfrifol am y gwaith.
- Bu'r Clwb Cymdeithasol yn weddol llwyddiannus ers ei sefydlu yn 2007 ond amharwyd ar y busnes oherwydd adeiladu y ffordd osgoi. Mae yma nifer o gyfleon ar gyfer cynnyddu defnydd o'r clwb gan gynnwys mwy o bartiion preifat, cyngherddau, cyfarfodydd, cynhadleddau ac yn y blaen.
- Mae'r cwmni eisioes yn rhedeg mentrau cynhyrchu incwm nad ydynt yn perthyn yn uniongyrchol i weithgareddau peldroed fel rafflau, sesiynau bingo, lotto wythnosol ayb. Disgwylir y bydd deilydd y swydd yn datblygu rhain a chynhyrchu mwy o incwm ohonynt.
- Er bod y clwb yn derbyn swm sylweddol oddiwrth hysbysebion yn flynyddol teimlir bod yma hefyd botensial i gynyddu'r incwm hwn.

Os am fwy o wybodaeth neu ymgeisio cysylltwch a Dafydd Wyn Jones, Llys Gwilym, Llan Ffestiniog, Gwynedd LL41 4NY 07810057444 neu [dafyddwynjones@hotmail.co.uk](mailto:dafyddwynjones@hotmail.co.uk)  
Dyddiad Cau Gwener 23 o Ionawr 5 o'r gloch Cefnogir y fenter gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Mantell Gwynedd